Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council

Cofnodion o gyfarfod ychwanegol a gynhaliwyd nos Lun 31/3/2014
Minutes of the additional meeting held on Monday evening 31/3/2014

Presennol / Present:

Mr Elfed Jones (Cadeirydd / Chair)	Mrs Marilyn Hughes	Mrs Carys Davies
Mr Derek Owen	Mr Jack Longman	Mrs Julia Dobson
Mr Tony Hughes	Mr David Livingstone	Mr Dei Owen

Mrs Carli Evans-Thau (Clerc / Clerk)

Ymddiheuriadau / Apologies:
Mr Ricky Hughes (Is-gadeirydd / Vice Chair)
Mrs Rose Griffiths

1 Croeso / Welcome

Croesawyd pawb i'r cyfarfod a chafwyd ymddiheuriad am alw'r cyfarfod ar fyr rybudd. Pwrpas y cyfarfod oedd i drafod materion cynllunio ac yswiriant; materion oedd angen sylw ac ymateb cyn y cyfarfod nesaf.

All present were welcomed to the meeting and an apology was issued for the short notice given in calling the meeting. The purpose of the meeting was to discuss planning and insurance matters; matters that required attention and feedback before the next full council meeting.

2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

Mrs Julia Dobson – cais cynllunio Bodewryd / *Bodewryd planning application*

3 Materion Yswiriant / Insurance Matters

Dosbarthwyd rhestr o asedau cyfredol y Cyngor ac amcan o'u gwerth ar gyfer polisi yswiriant. Deallwyd bod pris wedi ei dderbyn yn barod gan Zurich ar gyfer yr eitemau hyn yn unol â'u gwerth ar y rhestr.

Cafwyd pris o £2581.14 am flwyddyn, neu £2386.74 y flwyddyn am gyfnod o dair blynedd.

Trafodwyd gwerth yr asedau a chytuno bod angen codi gwerth yr offer chwarae o £9k i £80k er mwyn cynnwys yr 'astroturf'. Gofynnwyd i'r Cadeirydd ofyn i Zurich am bris newydd, ac i'r Clerc ofyn i Aon am bris arall.

Cytunwyd bod y Cyngor yn derbyn y pris gorau er mwyn i'r polisi gael cychwyn 8/4/2014.

Gweithred – Gofyn am brisiau a threfnu polisi newydd.

A list of current Council assets and estimate of their value was distributed to those present. It was understood that a quote has already been received from Zurich for the assets as shown on the list.

The annual cost for insurance was quoted at £2581.14 for one year or £2386.74 per annum for three years.

The value of different assets were discussed, and it was agreed that the value of the play equipment should be increased from £9k to £80kin order to include the astroturf. The Chair was asked to contact Zurich again with the updated value of the assets to be insured, The Clerk would contact Aon to provide another quote.

It was agreed that the Council accept the best quote so that the policy may start on the 8/4/2014.

***Action – seek further quotes and arrange for a new insurance policy**.*

4 Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications

4.1 38C301A/EIA/RE - Cais llawn i godi dau dyrbin wynt ar dir Bodewryd -
Roedd yr holl wybodaeth yn ymwneud a'r cais wedi ei baratoi gan y Cyngor Sir ar ddisg er cafwyd deall bod Cyngor Tref Amlwch wedi cael copïau called o'r dogfennau priodol. Trafodwyd y cais mewn manylder, a chytuno gwrthwynebu'r datblygiad. Teimlai'r aelodau bod y tyrbinau -

- yn llawer rhy fawr, ac
- y byddai yn cael effaith negyddol ar dwristiaeth yn yr ardal
- yn cael effaith negyddol ar y tirlun a'r amgylchedd, yn enwedig mewn ardal hanesyddol ac
- yn peri gofid sŵn a phroblemau gweledegdd i drigolion lleol.

38C301A/EIA/RE – Full application for the erection of two wind turbines at Bodewryd –
All relevant documents had been prepared by the County Council on a disk, although it was understood that hard copies had been provided for the Amlwch Town Council. The application was discussed in detail, and it was agreed to object to the development. The members felt that –

- *the turbines were far too big*
- *the development would have a negative impact on tourism in the area*
- *the turbines would have a negative impact on the landscape and environment, especially in an area of historical interest and*
- *showed some concern for the impact of noise and visability on local residents.*

4.2 20C185C – Cais i ehangu ac addasu 1 Old Smithy, Cemaes –
Nid oedd gwrthwynebiad.

20C185C – Application for alterations and extensions at 1 Old Smithy, Cemaes –
There were no objections.

4.3 20C300 - Cais i bennu os oes angen caniatâd blaenorol i ddymchwel Park Lodge -
Cytuno trafod y cais yma mewn mwy o fanylder yn y cyfarfod Cyngor nesaf cyn gwneud penderfyniad.

20C300 – Application to determine whether prior approval is required to demolish Park Lodge –
It was agreed to discuss the application in more detail at the next full council meeting before making a decision.

4.4 20C301 - Cais i bennu os oes angen caniatâd blaenorol i ddymchwel Tŷ Baner -
Cytuno trafod y cais yma mewn mwy o fanylder yn y cyfarfod Cyngor nesaf cyn gwneud penderfyniad.

20C301 – Application to determine whether prior approval is required to demolish Ty Baner –
It was agreed to discuss the application in more detail at the next full council meeting before making a decision.

4.5 Gofynnwyd os y bydd modd i'r pwyllgor cynllunio gyfarfod yn fwy rheolaidd a chytunwyd y dylid galw cyfarfod dim ond os oes cynlluniau angen eu trafod a rhoi sylw cyn cyfarfod llawn, neu os oes nifer o geisiadau angen eu trafod ar unwaith.

It was asked whether the planning committee could meet on a more regular basis and it was agreed that a meeting would only be called if an application needed to be discussed and comments passed before the next full council meeting, or that there were a number of applications to be discussed at once.

5 Unrhyw Fater Arall / Any Other Business

5.1 **Drws y Caffi / *Café Door***
Cafwyd pris (£76) gan Mr F Sherman i drwsio drws y caffi. Buasai drws newydd yn costio tua £300, felly penderfynnu ei drwsio am flwyddyn arall.

Gweithred – trefnu gyda Mr Sherman i drwsio'r drws.

A quote of £76 was received from Mr F Sherman to repair the café door. A new door would cost approx. £300 and it was agreed to repair the current door for this year.

***Action – arrange with Mr Sherman to repair the door**.*

5.2 **Gwylfan yr Harbwr / *Harbour Viewing Area***

Cafwyd ebost gan y Cyngor Sir yn gofyn am ganiatad i ddechrau ar y gwaith ar gyfer y prosiect fel bod modd ei orffen cyn ddiwedd Gorffennaf. Roedd pawb yn gytun ar yr amod na fuasai y cyfrifoldeb o'i gynnal a'i gadw yn disgyn ar y Cyngor Cymuned. Byddai angen cadarnhad ysgrifennedig o hyn.

Gweithred – Cadarnhau pwy fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw a rhoi caniatad i barhau a'r prosiect.

An email has been received from the County Council asking the Community Council for approval to start the work on the Harbour Viewing Area as the work needs to be completed by the end of July. All present were happy for the work to be completed on the confirmation that the maintenance of the area will not become the responsibility of the Community Council once complete. Written confirmation is required.

Action – Confirm who will be responsible for the maintenance of the viewing area and give approval to start work.

5.3 **Gongl Rhedyn / Nant y Dyfrgi**

Cafwyd diweddariad ar y sefyllfa a deallwyd y byddai Mr P Gasson yn gallu rhoi tystiolaeth mewn llys petai angen. Mae cyswllt wedi ei wneud a chwmniau eraill, a trefnwyd cyfarfod gyda Mr Gwilym Williams wedi iddo gael ei gymeradwyo gan y twrna Ms Myra Pritchard Jones er mwyn iddo roi pris manwl gywir am y gwaith. Cytunwyd bod rhaid delio a'r mater yn ymwneud a'r ffiniau yn gyntaf cyn gallu symyd ymlaen i ddelio a materion eraill.

Gweithred – Cyfarfod a Gwilym Williams ar y safle.

All present were given an update of the current situation, and it was understood that Mr P Gasson would be able to provide evidence in court should it be required. Contact has been made with other surveying companies, and a meeting has been arranged with Mr Gwilym Williams (who has been recommended by our solicitor Ms Myra Pritchard Jones), so that he can provide an accurate quote for the work. It was agreed that the matter regarding the boundaries needs to be resolved before any other matters can be addressed.

Action – Meet with Gwilym Williams on site.

5.4 **Toiledau y Traeth / *Beach Toilets***

Cafwyd cadarnhad gan y Cyngor Sir bydd y toiledau yn barod i'w defnyddio cyn ddiwedd Mai. Gofynnwyd os oes posib cael gostyngiad yng nghostau treth gan mai dim ond am hanner y flwyddyn bydd y toiledau ar agor. Bydd angen dechrau meddwl am benodi rhywun i gynnal a glanhau y toiledau.

The County Council has confirmed that the toilets will be ready for use by the end of May. It was asked whether or not a reduction in Council rates would be possible as the toilets are only open for half of the year. The Community Council will have to start thinking of appointing someone to maintain and clean the toilets.

Bu'r cyfarfod orffen am 7.30yh. / *The meeting closed at 7.30pm.*

CET04/2014